## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Pwyllgor Safonau |
| Dyddiad: | 31 Hydref 2012 |
| Teitl: | Adroddiad ar Hyfforddiant Aelodau |
| Adroddiad gan: | Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Ystyried mater hyfforddiant i Aelodau ar y Côd Ymddygiad ac agweddau eraill gan gynnwys hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â'r Côd ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn a'i gofnodi. |
| Swyddog Cyswllt: | Meirion Jones, Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (est 2563) |

1. Mae mater hyfforddi Cynghorwyr yn bwysig ac o arwyddocâd cynyddol. Adlewyrchir hyn ym Mreinlen Cymru CLILC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Mae Arweinyddion Grŵp wedi gwneud ymrwymiad y bydd y Cyngor yn rhan o'r Freinlen ac yn cefnogi ei hamcanion yn llawn gan gynnwys penodi Eiriolwr Datblygu Aelodau a sicrhau ymrwymiad Aelodau unigol i hyfforddiant a pharhau i adolygu hyn. Caiff yr ymrwymiad hwn ei gynnwys yn y Protocol Hunanreoleiddio sydd hefyd yn cynnwys fel un o'i egwyddorion cyffredinol "Bydd Aelodau yn ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad i gefnogi'r Protocol hwn". Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd wedi nodi y bydd yn disgwyl i bob Aelod fanteisio ar hyfforddiant.

2. Mae CLILC yn cyflwyno ei Breinlen dan y pennawd "Beth yw'r Freinlen?" gan fod "sawl her o flaen cynghorwyr y dyddiau yma. Dan amodau'r rhaglen foderneiddio, mae disgwyl iddyn nhw gyflawn amryw ddyletswyddau, megis arwain y gymuned ac ysgwyddo cyfrifoldebau penodol yn y Cyngor. Mae awdurdodau ledled Cymru yn ceisio rhoi'r cymorth gorau posibl i'r cynghorwyr i'w galluogi nhw i ateb pob her o'r fath. Mae'r cymorth ar ffurf cyrsiau (megis meithrin medrau), cyfleusterau a gwasanaethau . Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i gynnal y gweithgareddau hynny ..."

3. Yn ddiweddar, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Medi 2012) wedi cyhoeddi Canllawiau diwygiedig ar y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Yn ei ragarweiniad, fe ddywed inter alia "Fel aelod, cynigir hyfforddiant i chi ar y Côd, naill ai gan Swyddog Monitro neu gorff cynrychioliadol. Rwy'n disgwyl i bob aelod fanteisio ar unrhyw hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau gloywi, i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r darpariaethau yn y Côd a sut y caiff ei ddehongli". Felly, mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i Gynghorwyr fynychu cyrsiau hyfforddi, nid rhywbeth dewisol mohono.

4. Mae Sir Ddinbych wedi cydnabod hyn. Yn gynharach eleni, argymhellodd y Pwyllgor Safonau i'w Gyngor llawn y dylid diwygio'r Côd Ymddygiad i wneud hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn orfodol ac y dylai Aelodau fynychu un sesiwn hyfforddi pob blwyddyn.

Byddir yn gwerthfawrogi y gellir ychwanegu at y Côd Ymddygiad enghreifftiol (ar yr amod nad yw'r ychwanegiadau'n anghyson) ac mae Sir Ddinbych wedi ychwanegu'r cymal isod at ei Gôd ar gyfer Aelodau -

> "4. Rhaid i chi –
>
> (d) mynychu un sesiwn hyfforddi o leiaf yn ystod pob cyfnod swydd llawn ar Gôd Ymddygiad yr Aelodau fel a ddarparwyd gan Swyddog Monitro'ch Awdurdod neu berson a enwebwyd ar eu rhan."

5. Mae'r Alban wedi cyflwyno'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Aelodau Etholedig llywodraeth leol yn Yr Alban. Fe'i cyflwynwyd dwy flynedd yn ôl a rhydd i Gynghorwyr "professional and personal development opportunities and is designed to generate comprehensive, constructive feedback and how they exercise a wide range of critically important political skills." Rhaid i Gynghorau unigol gytuno i weithredu'r Fframwaith. Mae nifer o Gynghorau wedi mabwysiadu'r Fframwaith gan gynnwys Cyngor Dinas Glasgow (yr awdurdod lleol mwyaf yn yr Alban) a Swydd Aberdeen.

6. Bydd Cyngor Swydd Aberdeen yn "provide a range of training opportunities including induction, democratic process skills, the rights and responsibilities of Councillors, local government finance and media communication skills." I chwarae ei ran neu ei rhan yn llawn fel Cynghorydd, rhaid i Gynghorydd ofalu ei fod/ei bod yn derbyn y cyfleoedd hyfforddiant a ddarperir ar ei gyfer/ei chyfer. Fel rhan o'r Fframwaith "It is agreed that Aberdeenshire Council Councillors will undertake and record at least five days (36.25 hours) of Continuous Professional Development (CPD) per annum".

7. Ni fedrir cymryd camau gorfodaeth uniongyrchol mewn perthynas â hyfforddiant ond mae'n arwyddocaol os gwneir cwyn dan y Protocol Hunanreoleiddio neu dan weithdrefn Gwynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac mae er budd gorau'r Cyngor o ran ei enw da a barn Rheoleiddwyr y Cyngor ohono. O'r herwydd, argymhellir y dylid rhoi gwybod i'r Aelodau am argymhellion y Pwyllgor Safonau ac ymgynghori gyda nhw ar y cynigion.

8. Bwriedir cyflwyno'r newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mawrth 2013.

9. Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau ystyried yr opsiynau canlynol:-

9.1 Gadael pethau fel y maent a pheidio ag argymell unrhyw newidiadau

9.2 Bod y Pwyllgor Safonau'n argymell i'r Cyngor llawn y dylid diwygio'r Côd Ymddygiad i wneud hyfforddiant at y Côd Ymddygiad yn orfodol a bod rhaid i Aelodau fynychu un sesiwn hyfforddi bob blwyddyn a diwygio'r Cyfansoddiad i gynnwys y cymal isod

> "Rhaid i chi –
>
> (d) fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn ystod pob cyfnod swydd llawn fel a ddarparwyd gan Swyddog Monitro'ch Awdurdod neu berson a enwebwyd ar eu rhan."

"Bydd pob Cynghorydd yn ymgymryd ag o leiaf diwrnod (oriau) o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) bob blwyddyn ac yn eu cofnodi".

9.3.1 Bod y Pwyllgor Safonau'n argymell i'r Cyngor llawn bod y Côd Ymddygiad yn cael ei ddiwygio i wneud hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn orfodol a bod rhaid i Aelodau fynychu un sesiwn hyfforddi bob blwyddyn a diwygio'r Cyfansoddiad i gynnwys y cymal isod

"Rhaid i chi –

(d) " fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn ystod pob cyfnod swydd llawn fel a ddarparwyd gan Swyddog Monitro'ch Awdurdod neu berson a enwebwyd ar eu rhan."

a

9.3.2 Bod y Pwyllgor Safonau'n argymell i'r Cyngor llawn fod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio i gynnwys y cymal isod:

"fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn ystod pob cyfnod swydd llawn fel a ddarparwyd gan Swyddog Monitro'ch Awdurdod neu berson a enwebwyd ar eu rhan

9.4 Bod y Pwyllgor Safonau'n argymell i'r Cyngor llawn fod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio i gynnwys y cymal isod:

"Bydd pob Cynghorydd yn ymgymryd ag o leiaf    diwrnod (oriau) o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) bob blwyddyn ac yn eu cofnodi".

9.5 Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gymryd camau i adolygu'r opsiwn y mae'n ei gynnig.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau wneud argymhelliad o'r dewis o opsiynau a restrir ym mharagraff 9 a rhoi gwybod i'r Aelodau am argymhellion y Pwyllgor Safonau ac ymgynghori â nhw ar y cynigion hynny.